Visit Bridgend

Sir Pen-y-bont ar Ogwr

Canllaw i Ymwelwyr

Croeso i Sir Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn Ne Cymru yn llawn gwrthgyferbyniadau, drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r draethlin yn gartref i chwaraeon dŵr, traethau Baner Las, Llwybr Arfordir Cymru, golff o'r safon uchaf a ffair draddodiadol.

I mewn am y tir, mae'r harddwch wedi'i fritho gan lwybrau beicio mynydd, safleoedd hanesyddol, gwarchodfeydd natur ac, yn ôl pob tebyg, y dafarn hynaf yng Nghymru.

Rydym yn griw croesawgar ac mae ein traddodiadau rhyfedd yn cynnwys y Fari Lwyd hynafol yn y Flwyddyn Newydd a Gŵyl Elvis fwya'r byd.

Amseroedd da, anturiaethau gwych. Dyna Sir Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae seibiant bach yn gwneud byd o wahaniaeth

Angen seibiant bach? Eisiau rhoi cynnig ar rywbeth newydd? Edrychwch ar y profiadau yma.

Llefydd hudolus

Cyfle i fwynhau paentiadau byw Kevin Sinnott, a aned ym Mhen-y-bont ar Ogwr, un o sêr y sîn gelf gyfoes yng Nghymru, yn Studio18 yng Nghwm Garw. Mae Between the Trees, gŵyl werin gyfoes yng Ngwarchodfa Natur Merthyr Mawr, yn gymysgedd breuddwydiol o ioga, celf a cherddoriaeth mewn lleoliad naturiol. Mae gweithdai a chyngherddau yn cael eu cynnal mewn canolfannau creadigol, Tŷ Carnegie ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Phafiliwn y Grand ym Mhorthcawl.

Dewch â'ch ffrind pedair coes

Mae Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn gyrchfan perffaith ar gyfer anturiaethau gyda'ch ffrindiau pedair coes. Yn llawn llefydd gwych, cyfeillgar i gŵn, i ymweld â nhw ac aros, dyma'r cyrchfan delfrydol i ddod â'ch ffrindiau blewog gyda chi.

Barod am her

Gosodwch nod newydd i chi'ch hun. Hyfforddwch ar gyfer ras 10k Porthcawl, y Ras Cwningod dros Dwyni Merthyr Mawr neu Nofio Dydd Nadolig Porthcawl. Byddwch yn greadigol gyda chlai dan arweiniad y crochenydd profiadol Jane Malvisi Rees, neu ddysgu sut i adnabod planhigion fel rhan o sesiwn chwilota.

Ymlacio

Ewch ati i ymarfer ioga yn lleoliad tawel twyni tywod Merthyr Mawr, mwynhau bath gong adfywiol ym Mharc Gwledig Bryngarw, neu fynd ar hyd ein dau lwybr beicio di-draffig - 8 milltir Cwm Garw a 7¾ milltir Cwm Ogwr.
Byddwch chi'n teimlo'n llawer gwell ar ôl bod!

Noson dda o gwsg

Eisiau noson berffaith o gwsg? Anelwch am ein cymoedd gwyrdd. Dewiswch un o'r llwybrau cerdded ar dudalennau 18 a 19 y canllaw yma - ar gael i'w lawrlwytho o www.visitbridgend.co.uk/walks. Ar ôl yr holl awyr iach a'r golygfeydd anhygoel, byddwch chi'n cysgu'n drwm. Arhoswch ar faes gwersylla neu ewch i glampio mewn iwrt i gael profiad awyr agored gwych.

www.visitbridgend.co.uk/be-inspired

Dyddiau Allan i'r Teulu

Amser darganfod

Cyfle i ddysgu am fywyd gwyllt yng Ngwarchodfa Natur Parc Slip, lle mae canolfan ymwelwyr, caffi a digwyddiadau archwilio pyllau a theithiau ymlusgiaid. I'r rhai sy'n hoff o hanes, mae ymweliad â Chastell Coety ac amgueddfa Porthcawl yn ddiwrnod da.

Ysbeidiau heulog

Paciwch bicnic ac anelu am un o'n saith o draethau (edrychwch ar dudalen 22). Gorffennwch y diwrnod yn hwyl y ffair ar Draeth Coney. Am lecyn mwy cysgodol, rhowch gynnig ar goetiroedd, gwlybdiroedd a dolydd Parc Gwledig Bryngarw, lle gallwch chi logi plinth barbeciw.

Tywydd gwlyb

Gydag wyth canolfan hamdden a phwll nofio ar draws y sir, dydych chi byth ymhell o ddiwrnod llawn hwyl dan do. Mae gan Ganolfan Fywyd Pen-y-bont ar Ogwr sleid hydro, chwarae meddal a wal ddringo. Mae gan Barc Gwyliau Bae Trecco bwll, cromen chwaraeon, bowlio a den celf a chrefft. O amgylch tref Pen-y-bont ar Ogwr mae parc trampolîn mwyaf Cymru, fferm hwyl, chwarae meddal, parc sglefrio dan do a mwy. Mae'r sinema yng Nghanolfan Siopa Arbenigol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig dihangfa berffaith arall.

Chwilio am wefr?

Ewch i reidio'r tonnau gyda gwers yn un o ysgolion syrffio Porthcawl neu rhowch gynnig ar weithgareddau adrenalin fel arfordiro, tag laser a rhaffau uchel. Bydd busnesau lleol eraill yn eich helpu chi i ddod o hyd i'ch ochr wyllt drwy adeiladu cuddfan, cynnau tân a thaflu bwyeill (yn ddiogel!).

Llawn egni

Gollyngwch stêm yn y meysydd chwarae ar Gaeau Newbridge Pen-y-bont ar Ogwr, Parc Griffin Porthcawl neu Barc Lles Maesteg, sydd hefyd ag ardal sglefrfyrddio a chyrtiau tennis.

www.visitbridgend.co.uk/see-do

Os mai antur awyr agored yw eich syniad chi o amser da, anelwch am ein harfordir, ein copaon a'n coetiroedd hynafol. Gweithgareddau gwefreiddiol yn mhob man.

Ar y dŵr

Mae ein harfordir anhygoel yn denu syrffwyr. Yng Nghanolfan Chwaraeon Dŵr Rest Bay fe welwch chi bopeth sydd arnoch ei angen - hyfforddwyr cyfeillgar, llogi offer, ystafelloedd newid a chawodydd, a chaffi gyda golygfeydd gwych. Ar gyfer mathau eraill o gyffro, rhowch gynnig ar farcudfyrddio, gwyntsyrffio neu badlfyrddio.

Yng nghefn gwlad

Mewn coetir cudd ar gyrion twyni tywod Merthyr Mawr, gallwch ddysgu sut i oroesi diwrnod neu fwy yn y gwyllt. Rhowch gynnig ar adeiladu lloches, chwilota am fwyd gwyllt a choginio ar dân gwersyll. Bydd y mwyaf anturus yn eich plith wrth eu bodd gyda thaflu bwyeill a saethyddiaeth hefyd!

Aml-weithgareddau

Llenwch ddiwrnod neu ddau gyda hwyl llawn adrenalin. O feicio cwad, peli paent a chaiacio i dyrau dringo a llithrenni gwib. Y cyfan o dan arweiniad hyfforddwyr arbenigol.

Pŵer pedal

Rydym yn darparu ar gyfer pob math o feicwyr. Mae beiciau braster ar gael o Rest Bay i archwilio'r twyni tywod a'r arfordir. Yn uchel yng nghwm Garw mae dau lwybr heriol i feicwyr mynydd profiadol. Mae llwybr glas gwefreiddiol Glengarw yn cynnig trac sengl troellog ac ysgafellau wedi'u creu'n hyfryd, ac mae llwybr du Gellideg yn addo dringfa sy'n llosgi'r coesau a dod i lawr gwefreiddiol gydag ysgafellau, tyllau bom, slabiau serth a nodweddion craig technegol. Mae beicwyr pellter hir yn ymweld â Phen-y-bont ar Ogwr ar y Llwybr Celtaidd (Llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol), sy'n mynd drwy Warchodfa Natur Parc Slip.

Anturiaeth anhygoel

www.visitbridgend.co.uk/activities

Golff o safon byd

Y Royal Porthcawl

Yn cael ei ystyried yn eang fel un o'r cyrsiau golff gorau yn y byd a'r gorau yng Nghymru, mae'r Royal ym Mhorthcawl yn lleoliad godidog, ar lethr i lawr at y môr. Gyda thyllau yn wynebu at bob pwynt o'r cwmpawd, mae'r golffwyr yn cael eu profi i'r eithaf ym mhob tywydd.

Mae absenoldeb twyni a choed ar y cwrs hwn yn arwain at olygfeydd o'r môr o bob un o'r deunaw twll. Ar draws y dŵr fe welwch chi benrhyn Gŵyr, Dyfnaint a Gwlad yr Haf. Rhoddwyd y teitl Royal Porthcawl i'r cwrs hwn yn 1912 gan y Brenin Siôr VII ac mae wedi cynnal digwyddiadau amatur a phroffesiynol di-ri dros y blynyddoedd. Mae ar restr bwced llawer iawn o olffwyr uchelgeisiol.

Mae pum lle arall i chwarae golff yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Pob un yn wahanol. Pob un yn groesawgar iawn.

Golff Pen-y-bont ar Ogwr

Safle ymarfer gyda llifoleuadau a chwrs golff 9 twll addas i deuluoedd. Llogi offer a gwersi golff.

Clwb Golff Coed-y-Mwstwr

Cwrs parcdir hardd gyda phlasty Fictoraidd yn gefnlen iddo, sydd bellach yn westy moethus. Ymhlith y nodweddion gwreiddiol mae gardd furiog a choed castanwydd aeddfed.

Clwb Golff Grove

Mae hwn yn gwrs parcdir heriol gyda llyn yn rhan o'r chwarae ar draws tair o'r ffyrdd, a golygfeydd ar draws Môr Hafren.

Clwb Golff Maesteg

Gyda lleoliad ar ben bryn, mae'r cwrs parcdir aeddfed hwn gyda thir tonnog – a gynlluniwyd gan James Braid – yn cynnig golygfeydd syfrdanol.

Clwb Golff y Pîl a Chynffig

Yn cael ei adnabod yn lleol fel y 'P & K', mae'r cwrs tonnog yma gyda thwyni tywod tal wedi'i leoli yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig.

www.visitbridgend.co.uk/golf

Bod yn Wyrdd

Parc Gwledig Bryngarw

Cymysgedd arbennig o goetir, dolydd a gerddi ffurfiol gyda lle i blant redeg o gwmpas, a chanolfan ymwelwyr a chaffi.

Uchafbwyntiau

- Cerfluniau rhyngweithiol Y Ceidwaid
- Lle chwarae i blant
- Llecynnau barbeciw
- Gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn

Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig

Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gyda thwyni tywod a llyn dŵr croyw.

Ar wahân i dop ei dŵr 50 troedfedd, mae adfeilion Castell Cynffig a godwyd gan y Normaniaid yn gorwedd o dan y tywod. Enwodd The Guardian y safle fel un o'i ddarganfyddiadau teithio gorau yn 2019.

Uchafbwyntiau

- Adar mudol ar y llyn
- Llwybrau drwy'r twyni i'r traeth
- Tegeirian y Fign Galchog sy'n brin iawn

Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwninger Merthyr Mawr

Hafan bywyd gwyllt gydag uchafbwyntiau tymhorol o flodau gwyllt a ffyngau, a golygfeydd gwych o'r twyni tywod.

Uchafbwyntiau

- Sledio i lawr y 'Big Dipper', y twyn tywod talaf yn Ewrop
- Adnabod ymlusgiaid a thrychfilod
- Llwybrau marchogaeth

Gwarchodfa Natur Parc Slip

300 o erwau rhyfeddol a fu unwaith yn rhan o lofa. Mae ei llwybrau mynediad hwylus, llwybrau beicio di-draffig a gwlybdiroedd yn denu teuluoedd a gwylwyr adar.

Uchafbwyntiau

- Canolfan ymwelwyr
- Cuddfannau adar
- Digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn
- Siop goffi gyda golygfeydd gwych

Ysbryd Coetir Llynfi

Gyda golygfeydd panoramig ar draws cwm Llynfi, mae'r coetir cymharol newydd hwn ar safle hen lofa.

Uchafbwyntiau

- Cerflun derw Ceidwad y Lofa
- Geogelcio
- Campfa awyr agored
- Llwybrau cerdded a rhedeg

Enillwyr Gwobr y Faner Werdd

Mae'r marc ansawdd rhyngwladol yma wedi cael ei ddyfarnu i Barc Lles Maesteg, Llynnoedd Wilderness ym Mhorthcawl, Parc Slip a Pharc Gwledig Bryngarw.

www.visitbridgend.co.uk/nature

Teithio drwy amser

Yr Hen Bont ganoloesol sy'n rhoi ei henw i'r dref.

Edrychwch ar y safleoedd treftadaeth diddorol yma, sy'n cael eu hargymell gan arbenigwyr lleol.

Tŷ Sant Ioan

Ken Hinton, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Tŷ Sant Ioan

"Dewch i ddiwrnod agored yn y tŷ canoloesol atmosfferig yma a byddwn yn eich tywys o amgylch yr adeilad hynaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr y mae posib byw ynddo."

Mwy i'w fwynhau

Gerllaw mae Eglwys Illtud Sant, sydd wedi bod yn fan addoli ers 900 mlynedd, a Chastell Newcastle, a oedd, ynghyd â'r cestyll Normanaidd yng Nghoety ac Ogwr, yn gwarchod yr ardal yma rhag goresgyniad.

Merthyr Mawr

Natalie Murphy, awdur a hanesydd lleol

"Gyda'i fythynnod to gwellt a'r arysgrifau canoloesol yn y fynwent dawel, mae'n teimlo fel bod amser wedi aros yn ei unfan yma. Ewch ar y bont droed dros afon Ogwr, a dilynwch y llwybr at y cerrig camu ar draws afon Ewenni i Gastell Ogwr."

Mwy i'w fwynhau

I'r gogledd o'r pentref mae Pont Drochi o'r 15fed ganrif, gyda thyllau yn y parapet fel bod ffermwyr yn gallu gwthio eu defaid anfoddog i'r afon am eu dip blynyddol.

Amgueddfa Porthcawl

Ceri Joseph, hanesydd lleol

"Mae'r hen Orsaf Heddlu yma'n llawn arteffactau a gwirfoddolwyr brwdfrydig. Rydyn ni wrth ein bodd yn ateb cwestiynau ymwelwyr, ac yn cynnal digwyddiadau yn ystod y gwyliau."

Mwy i'w fwynhau

Ewch i weld Cwt 9 Gwersyll Carcharorion Rhyfel Island Farm ar ddyddiadau penodol pryd bydd pobl yn dod â'r lle yn fyw drwy ail-greu'r hanes. O'r cwt yma wnaeth 70 o Almaenwyr dwnelu eu hunain allan o'r gwersyll - ond cawsant eu dal eto o fewn wythnos!

www.visitbridgend.co.uk/attractions

Therapi manwerthu

Gyda chanol trefi wedi'u hadfywio, siopau glan y môr a chynhyrchwyr arbenigol, ac un o siopau dylunwyr gorau'r DU, mae gan Sir Pen-y-bont ar Ogwr brofiadau siopa a bwyta addas i bawb.

Balch o fod yn annibynnol

Yn dref farchnad ers yr 16eg ganrif, mae gan Ben-y-bont ar Ogwr gymysgedd bywiog o siopau annibynnol, caffis ac enwau'r stryd fawr. Yn y farchnad dan do draddodiadol, fe welwch chi fusnesau teuluol hirsefydlog a masnachwyr newydd.

Wedi'i lleoli yng nghwm hardd Llynfi, mae gan dref Maesteg ymdeimlad cryf o gymuned. Mae canol y dref yn cynnwys brandiau'r stryd fawr, siopau annibynnol a marchnad awyr agored, ochr yn ochr â Neuadd y Dref hanesyddol.

Mae tref glan môr brysur Porthcawl yn gartref i siopau annibynnol sy'n gwerthu amrywiaeth hyfryd o eitemau o emwaith, esgidiau a blodau, yn ogystal ag offer syrffio ac anrhegion Cymreig.

Mae posib dod o hyd i bopeth ar gyfer gardd eich breuddwydion ym Mhentref Gardd y Pîl. Ac yng nghrochendy hynaf Cymru, Crochendy Ewenni, gallwch wylio crochenwyr yn creu'r dyluniadau diweddaraf.

Siopau Dylunwyr Arbenigol

Mae gan Ganolfan Siopa Dylunwyr Arbenigol McArthur Glen Pen-y-bont ar Ogwr, ychydig oddi ar yr M4, fwy na 90 o siopau a bwytai, gan gynnig digon o ddewis a gostyngiadau enfawr ar eich hoff labeli. Mae'r ardal chwarae awyr agored a'r sinema gyfagos yn gyfle i droi eich trip siopa yn ddiwrnod allan i'r teulu cyfan, gan gynnwys eich ffrind pedair coes. Mae croeso cynnes i gŵn yn y ganolfan a mwy na 40 o'r siopau.

Bwyta allan

Gallwch ddisgwyl blasau egsotig, yn y llefydd lleiaf hyd yn oed. Mae gan bentref bychan Trelales dri bwyty annibynnol, yn ogystal â Bwyty Leicester yng Ngwesty Great House sy'n dyddio o'r 16eg ganrif. Mae Old House 1147 yn fwy hanesyddol fyth, ym mhentref Llangynwyd. Yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, mae digon o ddewis gyda blasau Sbaeneg, Ffrengig ac Eidalaidd, heb sôn am fariau jin a choctels. Profwch ddiwylliant caffis glan môr Porthcawl am flasau lleol.

www.visitbridgend.co.uk/shopping

Cerddwch ffordd hyn

Pum llwybr cerdded sy'n arddangos tirweddau, treftadaeth a harddwch amrywiol Sir Pen-y-bont ar Ogwr.

I bawb

Llwybr Arfordir Cymru
Ein darn 11½ milltir o Lwybr Arfordir Cymru (cyfanswm o 870 milltir o hyd).

Mae rhai adrannau yn hygyrch i bawb: rhowch gynnig ar y llwybr pren rhwng Rest Bay a Pink Bay, a'r promenâd ym Mhorthcawl.

Uchafbwyntiau
- Twyni tywod dramatig
- Traethau Baner Las
- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

Ar gyfer haneswyr

Nant Bryn Glass
Taith gylch 2½ milltir drwy gefn gwlad deniadol wedi'i britho â ffermydd.

Uchafbwyntiau
- Castell Coety
- Eglwysi hanesyddol
- Tafarndai Llangrallo a Choety

Ar gyfer teuluoedd ifanc

Llwybr Cymunedol Cwm Ogwr
Cyfle i archwilio darn o'r llwybr 11 milltir syth yma drwy Gwm Ogwr, yn agos at yr afon. Gwych i deuluoedd gyda phramiau, cadeiriau olwyn neu feiciau.

Uchafbwyntiau
- Defnyddiwch ap Llwybr Sain Treftadaeth Cwm Ogwr i glywed straeon ar hyd y ffordd

Ar gyfer gwylwyr bywyd gwyllt

Afon Ogwr a Merthyr Mawr
Taith gylch 5½ milltir o orsaf reilffordd Pen-y-bont ar Ogwr, gyda'r posibilrwydd o weld amrywiaeth o fywyd gwyllt a'r bythynnod gwellt tlws ym Merthyr Mawr.

Uchafbwyntiau
- Gwarchodfa Natur Leol Craig y Parcau - cartref i goed derw ac ynn, blodau'r coetir, ystlumod ac adar

Am her

Taith Gerdded 1 Cwm Garw
Taith gylch 7 milltir o hyd sy'n cynnig golygfeydd anhygoel am Fôr Hafren o fannau uchel ar ochrau gorllewinol a dwyreiniol cwm Garw.

Uchafbwyntiau
- Treftadaeth ddiwydiannol
- Coedwig Darren Fawr
- Parc Calon Lân wedi ei enwi ar ôl yr emyn Cymraeg enwog

Gellir lawrlwytho mapiau a disgrifiadau o lwybrau'r teithiau hyn o
www.visitbridgend.co.uk/walks

5 reasons to visit Porthcawl

to smile

Happy times are guaranteed at Coney Beach Pleasure Park and the iconic 1930s Grand Pavilion, which has an impressive programme of live theatre, music and legendary Tea Dances. Follow a Dog's Trail - the free pub[illegible] sculptures.

to get wet

You might be dipping your toe into the sea at one of the town's seven beaches, or catching a wave on your first lesson at this popular surfing destination. The Rest Bay Watersports Centre is a great place to start discovering how much fun you can have in the sea.

to explore

Uncover the town's heritage at Porthcawl museum in the former Police Station. Hire bikes from Rest Bay to explore the Porthcawl cycle route to Trecco Bay which is mostly off-road. For a more leisurely day out, catch the open-top double-decker bus or Lucie the Land train.

to compete

Take part in the Porthcawl 10K or compete against yourself in the weekly Porthcawl Parkrun along the seafront. Royal Porthcawl Golf Club often hosts major golf championships so you might spot a well-known golfer or two. Porthcawl has also been proud to host the P1 AquaX UK jet ski championships at Newton Bay.

to make memories

Build sandcastles for your little ones. Enjoy a round of golf with friends. Scream on the fairground rides. Watch the sunset from the Wales Coast Path. Capture all these Porthcawl moments as Instagrammable memories.

TRANSLATION MISSING

For more reasons to visit, see
www.visitbridgend.co.uk/porthcawl

Traethau gwych

Yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r saith bae o amgylch Porthcawl yn rhai o'r traethau gorau yng Nghymru. Cewch ddysgu sut i fwynhau'r tonnau yng Nghanolfan Chwaraeon Dŵr newydd Rest Bay a mynd yn agos at fywyd gwyllt y môr mewn digwyddiadau hwyliog ar y traethau. Bydd cyfle i fwynhau taith gerdded wrth i'r haul fachlud ar hyd y tywod neu fentro i'r dŵr ar gyfer y Nofio Dydd Nadolig blynyddol.

Traeth	Cyfeirnod map (ar y tudalennau canol)	Maes parcio gerllaw	Toiledau	Toiledau i'r anabl	Lluniaeth	Achubwyr bywyd pan fydd y faner yn chwifio	Caniateir cŵn drwy gydol y flwyddyn	Ni chaniateir cŵn Mai - Medi
Traeth y Sgêr Tywodlyd yn bennaf gyda chlawdd o ro mân. Cerddwch yma o faes parcio Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig neu ar hyd Llwybr Arfordir Cymru o Rest Bay.	6					✓*	✓	
Bae Pinc Traeth tawel gyda chlawdd cerrig crynion pinc serth yn arwain at dywod euraidd. Poblogaidd ymhlith cerddwyr, selogion bywyd gwyllt a syrffwyr. Mae'r maes parcio agosaf yn Rest Bay.	2					✓*	✓	
Rest Bay Traeth poblogaidd Baner Las gyda thywod mân, gyda Chlwb Golff y Royal Porthcawl yn gefndir iddo a chlogwyni isel. Canolfan Chwaraeon Dŵr gydag ysgol syrffio a llogi beiciau.	4	✓	✓	✓	✓	✓		✓
Sandy Bay (sy'n cael ei alw hefyd yn Draeth Coney) Traeth tywodlyd mawr, cysgodol gyda chadeiriau dec a reidiau mulod yn yr haf. Ffair, siopau, ysgol syrffio, caffis a bariau yn y cefndir.	5	✓	✓		✓	✓		✓
Traeth y Dref (sy'n cael ei alw hefyd yn Draeth Glan y Môr) Traeth creigiog gyda phromenâd sy'n rhedeg o'r Marina i Bafiliwn y Grand. Yn agos at siopau a chaffis canol y dref. Ni chaniateir ymdrochi.	8	✓	✓		✓			✓
Bae Trecco Traeth Baner Las poblogaidd gyda phyllau creigiog. Ger Parc Gwyliau Bae Trecco gyda'i ddifyrion, golff mini, pwll nofio a chwarae meddal i ymwelwyr dydd.	7	✓	✓	✓	✓	✓		✓
Traeth Newton Traeth tywodlyd eang gyda phyllau creigiog, gyda thwyni tywod Merthyr Mawr yn gefndir iddo. Yn boblogaidd ar gyfer chwaraeon dŵr a marchogaeth, ac yn agos at Barc Gwyliau Bae Trecco.	1	✓			✓	✓*	✓	

* volunteer lifeguards

TRANSLATION MISSING

www.visitbridgend.co.uk/beaches

Traethau Godidog

1 Traeth Drenewydd yn Notais
2 Pink bay
3 Marina a Thraeth Tref Porthcawl
4 Rest Bay
5 Sandy bay
6 Traeth y Sger
7 Bae Trecco
8 Traeth y Dref

Golff o'r Radd Flaenaf

9 Canolfan Golff Pen-y-bont ar Ogwr
10 Clwb Golff Coed y Mwstwr
11 Clwb Golff y Grove
12 Clwb Golff Maesteg
13 Clwb Golff y Pîl a Chynffig
14 Clwb Golff Brenhinol Porthcawl

Therapi siopa

15 Crochenwaith Ewenni
16 Pentref Manwerthu McArthurGlen
17 Pentref Gardd y Pîl

Teithio drwy Amser

18 Castell Coety
19 Y Pafiliwn Mawr
20 Y Castellnewydd
21 Castell Ogwr
22 Amgueddfa Porthcawl
23 Tŷ Sant Ioan

Awyr Agored

24 Parc Gwledig Bryngarw
25 Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig
26 Gwarchodfa Natur Merthyr Mawr
27 Parc Calon Lân
28 Gwarchodfa Natur Parc Slip
29 Coetir Ysbryd y Llynfi

visitbridgend.co.uk **F: 01656 815332** **E: tourism@bridgend.gov.uk**

Croeso i Ben-y-bont croesoibenybont CroesoiBenybont @Croesoibenybont

Gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yn y llyfryn hwn, ond ni all y cyhoeddwyr dderbyn atebolrwydd o gwbl am unrhyw wallau, anghywirdebau na hepgoriadau, nac am unrhyw fater sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â chyhoeddi'r wybodaeth hon neu sy'n deillio o hynny. Ni cheir atgynhyrchu'r llyfryn hwn yn rhannol nac yn gyfan gwbl heb ganiatâd y cyhoeddwyr ymlaen llaw.